Estyn

Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Lleoliadau awdurdod lleol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig 52 wythnos

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Buddsoddwyr Mewn Pobl – Investor in People

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

HYDREF 2008

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan Yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Cyflwyniad** **1**

**Cefndir** **3**

**Prif ganfyddiadau** **5**

**Argymhellion** **7**

**Pam mae disgyblion yn mynychu ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig?** **8**

**Sut mae awdurdodau lleol yn sicrhau y bydd y ddarpariaeth yn bodloni anghenion disgyblion?** **12**

**Monitro lleoliadau** **14**

**Gwneud trefniadau hyblyg i fodloni anghenion disgyblion** **16**

**Gweithio ar y cyd** **17**

**Gofynion, arweiniad ac arolygu statudol** **19**

Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (2002) 19
Arolygu a rheoleiddio 20
Beth yw effaith polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru? 21

**Atodiad 1: Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru**

**Atodiad 2: Astudiaeth achos o lwybr disgybl nodweddiadol i ysgol arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig**

**Atodiad 3: Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003**

**Geirfa/cyfeiriadau**

**Awdur y cylch gwaith a thîm yr arolwg**

## Cyflwyniad

1 Cynhyrchodd Estyn yr adroddiad hwn ar gais Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol[1] a leolwyd gan awdurdodau lleol mewn ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig 52 wythnos. Mae gan yr ysgolion hyn naill ai ddarpariaeth breswyl ynghlwm neu maent wedi'u cysylltu â chartrefi gofal preswyl. At ddibenion yr adroddiad hwn, bydd yr ysgolion hyn yn cael eu galw'n ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig.

2 Mae'r adroddiad yn ystyried yn benodol y cyfeiriad strategol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith'.

3 Yn ôl Deddf Addysg 1996, Adran 347 (5) (b), mae angen cydsyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru lle bo awdurdod addysg lleol yn bwriadu lleoli plentyn sy'n destun datganiad anghenion addysgol arbennig mewn ysgol annibynnol sydd naill ai:

- heb gymeradwyaeth anghenion addysgol arbennig h.y. cymeradwyaeth i dderbyn disgyblion sydd â datganiadau anghenion addysgol arbennig; neu
- sydd â chymeradwyaeth anghenion addysgol arbennig, ond bod y plentyn penodol y tu hwnt i delerau cymeradwyaeth anghenion addysgol arbennig yr ysgol.

4 Mae Deddf Addysg 2002 yn diffinio ysgol arbennig fel unrhyw ysgol sy'n darparu addysg amser llawn i:

- bump neu fwy o ddisgyblion oedran ysgol gorfodol; neu
- un neu fwy o ddisgyblion sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig; neu
- un neu fwy o ddisgyblion, mewn gofal cyhoeddus, mewn ysgol na chynhelir gan yr awdurdod addysg lleol.

5 Mae Deddf Addysg 2002 yn gofyn bod pob ysgol arbennig wedi cofrestru gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru a'u bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003[2]. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cytuno ar weithdrefnau gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac Estyn ar gyfer arolygu cydymffurfiad ysgol â'r rheoliadau a pharodrwydd ysgol ar gyfer gweithredu.

---

[1] Mae'r term hwn yn cwmpasu ystod eang iawn o anghenion. Rydym yn defnyddio'r term ADY mewn perthynas â dysgwyr sydd ag anghenion heblaw am anghenion y rhan fwyaf o'u cyd-ddisgyblion, am nifer o wahanol resymau, gan gynnwys dysgwyr:
- sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA), fel y'u diffinir yng Nghod Ymarfer AAA Cymru (2002); ac
- sydd ag anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol.

[2] Gweler Atodiad 3

6 Rhwng Ebrill 2006 a Rhagfyr 2007, cynhaliodd Estyn arolwg o awdurdodau addysg lleol ac ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig ledled Cymru. Anfonodd arolygwyr holiaduron cynhwysfawr i bob awdurdod lleol a chawsant 20 ymateb wedi'u cwblhau. Ymwelodd arolygwyr â chwe awdurdod addysg lleol ac fe wnaethant gynnal trafodaethau ag uwch swyddogion ac aelodau etholedig. Ymwelodd arolygwyr ag wyth ysgol arbennig annibynnol hefyd, ac fe wnaethant ystyried tystiolaeth a dynnwyd o arolygiadau o bob ysgol arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig ac awdurdod lleol dros y cyfnod rhwng 2005 a 2008. Yn ogystal, casglwyd tystiolaeth gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Swyddfa Archwilio Cymru.

7 Ystyriodd yr adroddiad hwn brif ganfyddiadau adroddiadau diweddar Estyn, gan gynnwys:

- Dewis a hyblygrwydd i ddysgwyr 14-19 oed (Mawrth 2008);
- 'Addysg mewn cartrefi plant' (2008); ac
- Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 2006-2007.

## Cefndir

8 Ym mis Ebrill 2008, cofrestrodd ysgolion yng Nghymru fod gan ryw 82,000 o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae ‘Cod Ymarfer’ anghenion addysgol arbennig 2002 yn diffinio bod gan ddisgybl anghenion addysgol arbennig os oes ganddo ef neu ganddi hi anhawster sy’n gofyn am wneud addysg arbennig iddo ef neu iddi hi. Mae gan leiafrif bychan o’r disgyblion hyn (3.2%) anghenion mor ddifrifol neu gymhleth fel bod angen datganiad anghenion addysgol arbennig i bennu’r ddarpariaeth sy’n bodloni eu hanghenion.

9 Darperir addysg i bron pob disgybl sydd â datganiadau anghenion addysgol arbennig drwy ysgolion prif ffrwd, unedau ysgolion arbennig ac iddynt adnoddau, neu unedau cyfeirio disgyblion awdurdodau lleol.

Ym mis Ebrill 2008, rhoddodd awdurdodau lleol yng Nghymru 2.2% o ddisgyblion â datganiad mewn ysgolion arbennig annibynnol. Mae bron pob un o’r disgyblion hyn yn blant y gofelir amdanynt sydd ag anghenion arbennig cymhleth fel anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad (ACEY) eithafol a/neu anawsterau eraill fel anhwylder y sbectrwm awtistig (ASD).

10 Canfu adroddiad diweddar Estyn, ‘Addysg mewn cartrefi plant’ (2008):

> “Mae gan bron pob disgybl yn y mathau hyn o ysgolion arbennig preswyl annibynnol anhwylderau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad (ACEY) ond dim ond tua hanner y disgyblion hyn sydd â datganiadau anghenion addysgol arbennig”.

11 Felly, mae nifer y disgyblion sydd ag anghenion arbennig cymhleth mewn ysgolion annibynnol yn uwch na’r 2.2% sydd â datganiadau sy’n hysbys yn swyddogol i Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC).

12 Mae cost y ddarpariaeth hon i awdurdodau lleol yng Nghymru yn uchel, er mai dim ond cyfran fach o gyfanswm y boblogaeth ddisgyblion yw hon. Mae cost flynyddol y ddarpariaeth mewn ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig i ddisgyblion ag anghenion arbennig cymhleth yn amrywio o £40,000 i £500,000 y disgybl. Mae mwyafrif helaeth y gost hon wedi’i briodoli i’r agweddau preswyl ar y ddarpariaeth 52 wythnos. Yn 2007, gwariodd awdurdodau lleol yng Nghymru tuag £16 miliwn ar y math hwn o ddarpariaeth. Mae hyn yn golygu bod awdurdodau lleol yn defnyddio adnoddau helaeth i fodloni anghenion y disgyblion hyn.

13 Mae’r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y ffordd y mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn cynllunio ac yn monitro ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion ag anghenion arbennig cymhleth y maent yn eu lleoli mewn ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig.

14 Mewn ymateb i'r adroddiad hwn, bydd Estyn:

- yn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a ganfuwyd yn yr arolygiadau o ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig gydag awdurdodau lleol yng Nghymru;
- yn parhau i weithio gydag AGGCC i wella prosesau arolygu ar y cyd; ac
- yn ymgynghori â Llywodraeth Cynulliad Cymru ar rannu, gyda'r Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant (ACCP), yr adroddiadau am ansawdd y ddarpariaeth mewn ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth gysylltiedig.

## Prif ganfyddiadau

15 Mae’r gwahaniaeth rhwng disgybl sydd ag anghenion dysgu cymhleth sy’n cael ei addysg yn lleol neu mewn ysgol arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig yn cael ei bennu gan ansawdd y gefnogaeth yn yr ysgol ac argaeledd cymorth effeithiol nad yw’n addysgol i ddisgyblion a’u teuluoedd.

16 Mae methiant llawer o awdurdodau lleol a’u partneriaid iechyd i gynllunio’n strategol a chynnig digon o wasanaethau lleol hyblyg, gan gynnwys cymorth teuluol, wedi arwain at ormod o ddisgyblion ag anghenion cymhleth yn cael eu lleoli y tu hwnt i’w hardaloedd eu hunain i gael addysg a gofal.

17 Nid oes gan uwch reolwyr ddigon o ymrwymiad bob amser i gynllunio ar y cyd i wneud y defnydd gorau o’r holl adnoddau sydd ar gael mewn ardal. Mae llawer i’w wneud i wella’r cynllunio strategol sydd ei angen i sicrhau’r gwasanaethau ar y cyd, p’un a bod hyn rhwng asiantaethau un awdurdod neu ar draws rhanbarthau Cymru.

18 Yn sgil ymweliadau arolygu ag ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig, canfuwyd yn achos mwyafrif y disgyblion, nad yw eu hystod gymhleth o anghenion arbennig yn cael eu bodloni. Yn rhy aml, mae awdurdodau lleoli yn canolbwyntio ar ddod o hyd i ysgol sy’n gallu bodloni anghenion mwyaf heriol y disgyblion, sy’n aml yn ymddygiadol, yn hytrach nag asesu holl anghenion cymhleth disgyblion a gwneud yn siŵr bod yr ysgol yn gallu bodloni pob un o’r anghenion hyn.

19 Nid yw awdurdodau lleol bob amser yn dilyn gweithdrefnau statudol pan fyddant yn gwneud darpariaeth ar gyfer disgyblion mewn ysgol arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig. Yn ogystal, nid yw awdurdodau lleol ac ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig bob amser yn gwneud yn siŵr eu bod yn ystyried anghenion addysgol arbennig disgyblion pan fyddant yn gwneud asesiad risg o’u hymddygiad heriol.

20 Rhwng 2006 a 2007, arolygodd Estyn wasanaethau sy’n cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac sy’n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol mewn dau awdurdod lleol a chanfu fod eu gwasanaethau cymorth i ddisgyblion ag anghenion cymhleth ac anableddau yn effeithiol.

21 Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiadau hyn canfu Estyn hefyd nad yw awdurdodau lleol yn darparu’n ddigon da ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad, ac nad yw ysgolion prif ffrwd yn nodi anghenion y disgyblion hyn yn ddigon cynnar nac yn ddigon cyson.

22 Nid yw’r rhan fwyaf o awdurdodau lleol:

- yn monitro ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion hynny sy’n cael eu haddysgu mewn awdurdodau eraill neu mewn ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig yn ddigon da;
- yn gwybod a yw’r ddarpariaeth hon yn bodloni anghenion disgyblion; nac

- yn gwybod a ydynt yn cael gwerth am arian o ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig o'u cymharu â darpariaeth leol, hyblyg, a gefnogir.

23 Yn yr awdurdodau lleol mwyaf effeithiol, mae swyddogion yn sicrhau bod gwybodaeth gynhwysfawr, unigol am addysg a gofal yn cael ei throsglwyddo i'r ysgol arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig cyn lleoli'r disgyblion. Er hynny, mae awdurdodau'n methu â sicrhau bod gan yr ysgolion y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddeall anghenion disgyblion unigol yn rhy aml o lawer.

24 Mae'r gweithdrefnau monitro mwyaf effeithiol yn digwydd pan fo Swyddogion Adolygu Annibynnol a Chydlynwyr Addysg Plant y Gofelir Amdanynt yn gweithio gyda'i gilydd i integreiddio adolygiadau, gan gynnwys yr adolygiad blynyddol o ddatganiad anghenion addysgol arbennig disgyblion, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am ofal a chynnydd addysgol disgyblion yn cael ei chadw'n gyfredol.

25 Mae gwaith rhanbarthol ar y cyd rhwng awdurdodau lleol yn cynnig y potensial i ostwng costau'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion cymhleth. Fodd bynnag, gall cynllunio da ar y cyd gael ei danseilio o hyd o ganlyniad i ddarparwyr annibynnol yn sefydlu darpariaeth newydd sydd ag adnoddau da a phrisiau cystadleuol. Mae gofyn am brotocolau ar y cyd rhwng partneriaid rhanbarthol er mwyn sicrhau ymwneud asiantaethau a'u hymrwymiad i ddefnyddio unrhyw ddatblygiadau rhanbarthol sy'n cael eu sefydlu.

26 Nid yw'r trefniadau cydweithio, gan gynnwys cyfuno cyllidebau ac adnoddau eraill rhwng awdurdodau lleol a'u partneriaid iechyd wedi datblygu'n ddigon da. Nid yw'r trefniadau hyn eto wedi cael effaith ar ansawdd y gwasanaeth ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag anghenion cymhleth.

27 Nid yw cronfa ddata'r Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant (2007)[3] ar hyn o bryd yn cynnwys adroddiadau arolygu a chofnodion ymweliadau gan Estyn nac AGGCC. Mae hyn yn golygu nad oes gan swyddogion awdurdodau lleol sy'n defnyddio'r gronfa ddata unrhyw arwydd o ansawdd y ddarpariaeth ac yn sgil hynny gallai plant a phobl ifanc gael eu lleoli mewn ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig neu mewn cartrefi plant sy'n darparu addysg nad yw'n bodloni eu hanghenion.

28 Mae'r gofynion arolygu gwahanol a'r setiau gwahanol o reoliadau sy'n rheoli ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig wedi rhwystro gweithio mwy cydlynol rhwng Estyn ac AGGCC.

[3] Mae Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant (ACCP) yn gronfa ddata a ddarperir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i awdurdodau lleol i gynorthwyo nodi lleoliadau addas ar gyfer ei phoblogaeth o blant y gofelir amdanynt.

## Argymhellion

**Dylai awdurdodau lleol:**

A1 gynllunio gwasanaethau'n strategol mewn partneriaeth ag eraill er mwyn cynnig cefnogaeth anaddysgol effeithiol, ar y cyd â chefnogaeth yn yr ysgol, i ddisgyblion sydd ag anghenion arbennig cymhleth ac i'w teuluoedd;

A2 gwneud yn siŵr bod ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig yn gallu bodloni ystod anghenion cymhleth disgyblion unigol, cyn lleoli;

A3 sicrhau bod gwybodaeth gynhwysfawr unigol am addysg a gofal yn cael ei throsglwyddo i'r ysgol cyn lleoli disgyblion;

A4 dilyn gweithdrefnau statudol bob amser wrth wneud darpariaeth mewn ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig;

A5 sicrhau bod Swyddogion Adolygu Annibynnol a Chydlynwyr Addysg Plant y Gofelir Amdanynt yn cydweithio i integreiddio adolygiadau disgyblion; ac

A6 annog eu hysgolion i weithio'n agos gyda rhieni a phartneriaid o asiantaethau eraill, er enghraifft, gwasanaethau cymdeithasol plant, y gwasanaethau cymorth ieuenctid, y gwasanaethau iechyd a'r heddlu, i gytuno ar gamau a fydd yn gwella ymhellach ymddygiad disgyblion sydd ag anghenion arbennig cymhleth.

**Dylai ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig:**

A7 sicrhau mai dim ond disgyblion y mae ganddynt yr arbenigedd i'w haddysgu y maent yn eu derbyn;

A8 beidio â derbyn disgyblion hyd nes derbyn gwybodaeth gynhwysfawr, unigol am addysgu gofal oddi wrth yr awdurdod lleol; a

A9 gwneud yn siŵr bod ganddynt ganiatâd Llywodraeth Cynulliad Cymru iddynt dderbyn disgyblion sydd â datganiadau anghenion addysgol arbennig.

## Pam mae disgyblion yn mynychu ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig?

29 Mae gan tua 82,000 o ddisgyblion yng Nghymru anghenion addysgol arbennig. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn mynychu ysgolion prif ffrwd lleol. Mae gan tua 3% o'r disgyblion hyn ddatganiadau anghenion addysgol arbennig, gyda thua chwarter y rhain yn mynychu ysgolion arbennig awdurdodau lleol. Mae awdurdodau lleol yn darparu datganiad anghenion addysgol arbennig i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n gofyn am ddarpariaeth benodol, y tu hwnt i'r hyn a ddarperir i ddisgyblion eraill. Nid oes unrhyw feini prawf cenedlaethol ar gyfer penderfynu pa lefelau o anghenion addysgol arbennig sydd angen datganiad, ac felly mae pob awdurdod lleol yn gwneud penderfyniadau ar sail anghenion yr unigolion yn ôl eu meini prawf lleol eu hunain.

30 Mae tystiolaeth o arolygiadau ysgolion yn 2006-2007 yn dangos bod disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn ysgolion, at ei gilydd. Mewn lleiafrif o achosion, mae disgyblion yn cael eu gwahardd o'r ysgol. Yn aml, mae'r mesur mwyaf arwyddocaol a gymerir gan awdurdodau lleol i wella ymddygiad disgyblion ac i atal gwahardd yn cynnwys cynnig hyfforddiant ychwanegol i athrawon a staff cymorth. Nododd adroddiad Estyn 'Ymddygiad yng Nghymru: Arfer dda wrth reoli ymddygiad heriol' 2006) enghreifftiau o strategaethau a mentrau llwyddiannus sy'n cynnig cymorth ac ymyrraeth. Nododd yr adroddiad:

> "Mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn gwneud defnydd da o blethora o ddulliau mewn prosiectau i gefnogi a gwella'r rheolaeth ar ymddygiad heriol. Mae tystiolaeth gymhellgar o ddefnyddioldeb y rhain wrth wella ymddygiad a lles disgyblion".

31 O'r mesurau a gymerwyd i wella ymddygiad disgyblion, mae gan ychydig ysgolion ganolfannau cymorth lle gall timau o staff arbenigol helpu'r disgyblion hynny sydd mewn perygl o gael eu gwahardd. Mae'r cynlluniau hyn yn gweithio'n dda ac maent wedi helpu'r ysgolion i leihau nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol.

32 Mae pob awdurdod lleol yn ceisio cefnogi ysgolion ac atal lleoliadau disgyblion rhag torri i lawr a gwahardd disgyblion trwy gynnig hyfforddiant, cyngor a gweithwyr cymorth ymddygiad ychwanegol i helpu i reoli ymddygiadau heriol disgyblion.

33 Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol dimau cymorth ymddygiad arbenigol sy'n cynnwys athrawon a gweithwyr cymorth, gyda seicolegydd addysg yn gweithio gyda nhw'n aml. Yn gyffredinol, gall y timau hyn ymyrryd ar unwaith i gynnig ystod o fecanweithiau cymorth, gan gynnwys lleoli byrdymor mewn uned cyfeirio disgyblion. Mae'r timau hyn yn gwneud gwahaniaeth, drwy hyfforddiant, cyngor a chefnogaeth i ysgolion ac ymyrraeth uniongyrchol gyda disgyblion.

34 I rai disgyblion, sydd ag ymddygiadau anodd sy'n heriol i ysgolion ac sy'n tarfu ar ddysgu eu cymheiriaid, mae addysg o natur hyblyg, fel arfer oddi ar safle[4] yr ysgol

[4] Mae darpariaeth 'oddi ar y safle' yn aml yn hyfforddiant galwedigaethol neu'n hyfforddiant yn y gwaith, wedi'i chydlynu gan y Rhwydwaith 14-19 o ddarparwyr lleol.

brif ffrwd, naill ai'n ychwanegu at y ddarpariaeth brif ffrwd neu'n cymryd ei lle. Mae'r disgyblion hyn yn elwa ar yr ystod ehangach o gyfleoedd a ddarperir trwy fenter Llwybrau Dysgu Llywodraeth Cynulliad Cymru 14-19. Nod y fenter hon yw annog mwy o bobl ifanc i gyflawni eu potensial a'u paratoi nhw'n well ar gyfer byd gwaith. Canfu adroddiad diweddar gan Estyn, 'Dewis a hyblygrwydd i ddysgwyr 14-19 oed':

> "Mae'r dewis o gyrsiau sydd ar gael i ddysgwyr yn cynyddu. Yr enghraifft orau yw lle mae grwpiau o ysgolion a cholegau wedi cynllunio darpariaeth ar y cyd ac wedi sicrhau bod yr ystod lawn ar gael i bob dysgwr yn eu sefydliad".

35 Fodd bynnag, canfu'r adroddiad hefyd mai ychydig iawn o ysgolion sy'n cynnig ystod ddigon eang o opsiynau naill ai'n 14 oed neu'n 16 oed.

36 Ynghyd â chefnogaeth hyblyg, ychwanegol yn yr ysgol, mae bron pob disgybl sydd ag anghenion arbennig cymhleth yn cael rhyw fath o gymorth neu wasanaeth gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol. Er enghraifft, gall y cymorth hwn ddod oddi wrth seicolegydd addysg, swyddog lles addysgol, gweithiwr cymdeithasol, gweithiwr cymorth ieuenctid, seicolegydd clinigol, seiciatrydd plant neu aelodau eraill o'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS). Mae ymwneud â'r system cyfiawnder ieuenctid yn gyffredin iawn. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnig y cymorth mwyaf effeithiol pan fyddant yn cydweithio â disgyblion a'u teuluoedd.

37 Mae gwella ymddygiad disgyblion yn aml yn gofyn bod ysgolion ac awdurdodau lleol yn cydweithio'n effeithiol â phartneriaid o asiantaethau eraill, yn enwedig pan fydd problemau ymddygiad y disgyblion yn deillio o amgylchiadau gartref. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw ysgolion ac awdurdodau lleol yn cydweithio'n ddigon agos â rhieni a phartneriaid o asiantaethau eraill, er enghraifft gwasanaethau cymdeithasol plant, y gwasanaethau cymorth ieuenctid, y gwasanaethau iechyd a'r heddlu, i gytuno ar gamau a fydd yn gwella ymddygiad disgyblion ymhellach. Yn aml, y gefnogaeth holistaidd a'r ymyrraeth a ddarperir gartref, gan gynnwys y cyngor a'r arweiniad i rieni ynghylch sut i reoli ymddygiad eu plant, ar y cyd â chefnogaeth yn yr ysgol, sy'n helpu i wella ymddygiad disgyblion.

38 Er cael y mathau o gymorth ychwanegol a gofnodir uchod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig ar hyn o bryd wedi cael eu gwahardd yn barhaol o o leiaf un ysgol brif ffrwd neu ddarpariaeth arbennig, fel uned cyfeirio disgyblion, oherwydd eu hymddygiad heriol. At ei gilydd, nid yw awdurdodau lleol yn darparu'n ddigon da yn lleol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion arbennig cymhleth, yn enwedig yn achos y rheiny sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad.

39 Yn siomedig iawn, canfu arolygiadau Estyn o wasanaethau awdurdodau lleol nad oedd tua hanner yr awdurdodau lleol:

- yn glir ynghylch sut i gynnig gwasanaethau effeithiol i blant a phobl ifanc; ac
- nad oeddent wedi gallu cytuno â gwasanaethau cyngor a phartneriaid eraill, fel y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaethau iechyd cymunedol, ar flaenoriaethau cyffredin iddynt nac ar y ffordd orau o gydweithio.

40 Yn yr un awdurdod lleol a oedd â rheolaeth strategol effeithiol, roedd strategaeth glir a chynllunio o ansawdd uchel ar gyfer integreiddio gwasanaethau addysg a phlant. Felly, mae gweithio amlasiantaethol yn datblygu, ond erys llawer i'w wneud cyn y bydd hwn yn bodloni anghenion arbennig cymhleth disgyblion yn effeithiol.

41 Canfu ymchwil a gyflawnwyd yn 2007 gan y Comisiwn Archwilio yn Lloegr, o'r enw: 'Lleoliadau y tu allan i'r awdurdod ar gyfer anghenion addysgol arbennig':

> "Mae diffyg rhaglenni cymorth integredig ar gyfer plant a theuluoedd, fel therapïau a chymorth iechyd meddwl, wedi arwain at alw am ddarpariaeth y tu allan i'r awdurdod mewn sawl ardal".

42 Mewn awdurdodau lleol lle mae'r cynllunio strategol o ran anghenion addysgol arbennig a gwasanaethau cynhwysiant yn dda, mae tystiolaeth arolygu'n cadarnhau bod yno strategaeth gynhwysiant sy'n annog gweithio ar y cyd rhwng addysg a gwasanaethau cymdeithasol plant i gynorthwyo mentrau cynllunio ar y cyd. Mae gweithio ar y cyd fel hyn i gefnogi plant y gofelir amdanynt[5] yn nodwedd gyffredin mewn awdurdodau sydd â lefelau isel o leoliadau y tu allan i'r sir.

43 Lle nad oes darpariaeth leol ar gael i fodloni anghenion addysgol cymhleth disgyblion, mae awdurdodau lleol yn ystyried lleoli mewn ysgol breswyl annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig, ond nid yw hyn yn digwydd ond mewn amgylchiadau eithriadol. Mae enghraifft ddamcaniaethol yn dangos profiadau nodweddiadol disgybl ar ei lwybr i'r math hwn o ddarpariaeth yn Atodiad 2.

44 Yn aml, nid yw'r ddarpariaeth hon wedi'i lleoli yn sir gartref y disgyblion. Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb i ariannu'r ddarpariaeth hon os ydynt yn penderfynu bod gofyn am addysgu mewn ysgol arbennig preswyl annibynnol.

45 Mae gan bron pob un o'r disgyblion sydd mewn ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig am 52-wythnos bob blwyddyn anghenion arbennig cymhleth fel anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad (ACEY) a/neu anawsterau eraill fel anhwylder y sbectrwm awtistig (ASA). Er hynny, nid yw ysgolion ac awdurdodau lleol o hyd yn nodi anghenion y disgyblion hyn yn ddigon cynnar nac yn ddigon cyson. Nid ydynt ychwaith yn nodi ystod lawn yr anawsterau sy'n llunio anghenion cymhleth y disgyblion hyn.

46 Yn sgil ymweliadau arolygu ag ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig dros y tair blynedd ddiwethaf, canfuwyd yn achos mwyafrif y disgyblion, bod eu hanghenion arbennig cymhleth yn cynnwys anawsterau dysgu ychwanegol, gan gynnwys anawsterau dysgu penodol. Ym mwyafrif yr achosion, nid yw'r ysgol yn bodloni'r anghenion ychwanegol hyn gan ei bod yn canolbwyntio ar y broblem fwyaf heriol, sef yr ACEY neu'r ASA eithriadol, fel arfer. Mae hyn yn aml oherwydd nad yw'r awdurdod lleoli wedi nodi anghenion y disgyblion yn ddigon clir adeg cyfeirio, neu ar y datganiad anghenion addysgol arbennig, ac nid yw'r ysgol wedi cynnal ailasesiad o anghenion disgyblion. Ni chanfu ymweliadau â'r ysgolion hyn ddigon o enghreifftiau o ddata asesu cyfredol, da, disgyblion. Felly, mae dysgu

[5] Plant y mae gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb rhieiniol cyfreithiol amdanynt. Defnyddir y term hwn i ddisgrifio pob plentyn sy'n cael eu henwi mewn gorchymyn gofal, neu y darperir llety iddynt yn wirfoddol am fwy na 24 awr. Arferid galw hwn yn 'mewn gofal'

disgyblion yn aml yn cael ei rwystro gan addysgu nad yw wedi'i gynllunio i fodloni eu hanghenion unigol.  Gall hyn ynddo'i hun arwain at fwy o anawsterau ymddygiad wrth i ddisgyblion deimlo'n rhwystredig ynghylch eu hanawsterau wrth ddysgu.

## Sut mae awdurdodau lleol yn sicrhau y bydd darpariaeth yn bodloni anghenion disgyblion?

47 Mae ymweliadau arolygu blynyddol Estyn ag ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig yn canfod tystiolaeth o ddisgyblion sy'n cael eu lleoli mewn ysgolion nad allant fodloni eu hanghenion addysgol. Fodd bynnag, mae gan leiafrif o awdurdodau lleol weithdrefnau a mesurau da i sicrhau bod lleoliadau'n briodol i anghenion disgyblion. Mae'r gweithdrefnau effeithiol hyn yn cynnwys:

- cadarnhau bod gan yr ysgol staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i fodloni anghenion ymddygiadol ac anghenion addysgol arbennig disgyblion;
- gofyn am dystiolaeth gan yr ysgol eu bod yn bodloni safonau ysgolion arbennig;
- pennu bod Cydlynydd Plant y Gofelir Amdanynt yn cydlynu cynlluniau addysg personol effeithiol ac o ansawdd uchel;
- ymweliadau â'r ddarpariaeth arfaethedig gan staff addysg a staff y gwasanaethau cymdeithasol;
- gwirio adroddiadau arolygu;
- cysylltu ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i drafod darpariaeth;
- cysylltu â swyddfa'r gwasanaethau cymdeithasol lleol i drafod y ddarpariaeth; a
- thrafod graddfeydd boddhad awdurdodau eraill gyda nhw, sydd â disgyblion wedi'u lleoli.

48 Fodd bynnag, nid yw digon o awdurdodau lleol yn dilyn y gweithdrefnau a ddisgrifir uchod.

49 Ers yr arweiniad diweddar gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, 'Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell', bu gofyn bod awdurdodau lleol yn sefydlu panel amlasiantaethol i ystyried pob lleoliad y tu allan i'r sir. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau mewn ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig. Mae'r holl awdurdodau lleol sydd ynghlwm wrth yr ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn wedi sefydlu panel, ond hyd yn hyn, nid yw pob un ohonynt yn gweithio i'w llawn botensial. Nid yw ychydig ohonynt yn cynnwys staff addysg yn llawn mewn penderfyniadau ynghylch lleoli. Mae hyn yn golygu nad yw lleoliadau ysgol bob amser wedi'u cydlynu'n ddigon da ac nad yw ysgolion felly'n cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gynllunio ar gyfer anghenion cymhleth disgyblion.

50 Mae adnodd newydd, yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant (ACCP) bellach yn cynorthwyo awdurdodau lleol i nodi lleoliadau ar gyfer plant y gofelir amdanynt. Mae'n gronfa ddata adnodd, sy'n cael ei chydlynu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), a ddatblygwyd mewn ymateb i bryderon ynghylch:

- niferoedd y plant y gofelir amdanynt yng Nghymru;
- y cynnydd yn y lleoliadau a wneir mewn darpariaeth annibynnol; ac
- y costau sy'n gysylltiedig â'r lleoliadau hyn.

51 Mae arwyddion cynnar yn awgrymu bod y gronfa ddata'n ddefnyddiol iawn i awdurdodau lleol wrth chwilio am leoliadau priodol ar gyfer plant y gofelir amdanynt. Fodd bynnag, nid yw'r gronfa ddata ei hun yn cynnwys adroddiadau arolygu a chofnodion ymweliadau gan Estyn nac AGGCC ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu nad oes gan awdurdodau lleol unrhyw wybodaeth am ansawdd y ddarpariaeth y maent yn gwneud penderfyniadau lleoli yn ei chylch.

52 Nid yw ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig bob amser yn cael digon o wybodaeth am anghenion addysgol disgyblion cyn lleoli. Yn wir, hyd yn oed yn dilyn lleoli, mae'r wybodaeth hon yn aml yn anghyflawn. Er enghraifft, mae adroddiadau asesu sy'n cael eu darparu fel rhan o'r gweithdrefnau asesu statudol y mae awdurdodau lleol yn ymgymryd â nhw, ar goll yn aml. Nid yw'n anarferol canfod nad oes gan ysgolion gopi o ddatganiadau anghenion addysgol arbennig disgyblion. Mae'r diffygion hyn yn golygu nad yw athrawon yn ymwybodol o anghenion addysgol arbennig disgyblion a gallant fod yn darparu cynlluniau addysgol unigol annigonol. I'r gwrthwyneb, mae gan yr ysgol wybodaeth dda am anghenion gofal disgyblion fel arfer. Mae hyn oherwydd eu bod yn teimlo, yn gyfiawn, nad allant wneud penderfyniad ynghylch cynnig lleoliadau heb y cyfryw fanylion cynhwysfawr ynghylch amgylchiadau cymdeithasol, ymddygiad troseddol ac anghenion iechyd meddwl disgyblion.

53 Nid yw awdurdodau lleol ac ysgolion arbennig bob amser yn gwneud yn siwr eu bod yn ystyried anghenion dysgu disgyblion fel rhan o'r broses asesu risg unigol. Mae asesiad risg o anghenion disgyblion unigol yn broses hanfodol sy'n helpu darparwyr i wneud yn siwr eu bod yn cadw disgyblion, staff a'r gymuned leol yn ddiogel. Yn yr asesiad hwn, mae dealltwriaeth o anghenion addysgol arbennig disgyblion yn elfen bwysig gan fod cydberthynas glir rhwng ymddygiad heriol ac anghenion addysgol arbennig.

## Monitro lleoliadau

54 Bydd bron pob un o'r disgyblion mewn ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig yn cael eu galw'n 'blant y gofelir amdanynt' (PGA) gan awdurdod lleol, p'un a ydynt yn cael eu lletya neu eu bod yn destun gorchmynion gofal. Mae gan yr ysgolion hyn naill ai ddarpariaeth breswyl ynghlwm wrthynt neu maent yn gysylltiedig â chartref gofal preswyl. Mae hyn yn golygu bod disgyblion sy'n cael eu lleoli y tu hwnt i'w hardal gartref yn gallu byw yn yr ysgol neu gerllaw iddi.

55 Dylai disgyblion 'y gofelir amdanynt' fod â Swyddog Adolygu Annibynnol (SAA), a benodir gan yr awdurdod lleol, sy'n cadeirio'r adolygiadau statudol rheolaidd ar gyfer pob unigolyn. Dylid cynnal adolygiad o gynnydd disgyblion cyn pen 28 niwrnod, tri mis a chwe mis o leoliad gyda Chynllun Gofal, a bob chwe mis gyda Chynllun Llwybr.

56 Yn arwyddocaol, mae'r SAA hefyd yn monitro perfformiad yr awdurdod wrth ofalu am yr unigolyn sy'n cael ei adolygu. Mae angen i awdurdodau lleol a'u partneriaid gydymffurfio â'r arweiniad yn eu lleoli, eu cynllunio a'u hadolygu.

57 Fodd bynnag, nid yw pob awdurdod lleol yn cydymffurfio â'r arweiniad i benodi SAA ar gyfer pob disgybl sy'n cael ei letya neu sy'n destun gorchmynion gofal. Felly, anaml yw'r monitro ar leoliadau rhai disgyblion ac nid yw'n rhoi i awdurdodau lleol yn rheolaidd y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud yn siwr bod disgyblion yn cael gofal ac addysg briodol.

58 Mae llawer o awdurdodau lleol yn dilyn trywydd cynnydd cyffredinol disgyblion unigol yn ofalus pan fyddant yn eu lleoli mewn ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig. Gwnânt hyn drwy adolygu Cynllun Gofal/Cynllun Llwybr a Chynllun Addysg Personol y plentyn, yn ogystal â'r adolygiad blynyddol statudol o'r datganiad anghenion addysgol arbennig.

59 Digwydd y gweithdrefnau monitro mwyaf effeithiol pan fydd SAAau a Chydlynwyr Plant y Gofelir Amdanynt yn gweithio gyda'i gilydd i integreiddio adolygiadau, gan gynnwys yr adolygiad blynyddol o ddatganiad anghenion addysgol arbennig y disgyblion.

60 Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn coladu nac yn dadansoddi'r wybodaeth werthfawr hon o adolygiadau o gynnydd lleoliadau disgyblion unigol mewn ysgolion penodol er mwyn llunio trosolwg strategol o ba mor dda y mae ysgolion unigol yn bodloni anghenion grwpiau penodol o blant.

61 Yn gyffredinol, mae swyddogion awdurdodau lleol yn rhoi gwybodaeth dda i aelodau eu cynghorau am gynnydd disgyblion mewn ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig, ond nid ydynt yn rhoi digon o wybodaeth fanwl iddynt am ansawdd y ddarpariaeth er mwyn eu galluogi nhw i benderfynu a yw'r lleoliadau hyn yn rhoi gwerth am arian. Fodd bynnag, gan fod bron pob un o'r disgyblion sy'n cael eu lleoli mewn ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig yn blant y gofelir amdanynt, mae eu lleoliadau yn destun prosesau adrodd rheolaidd y cyngor. Mae gan y prosesau hyn y potensial i gynnwys arfarniad mwy helaeth o werth am arian, a chynllunio darpariaeth a gwasanaethau arbennig yn y dyfodol.

62 Mae cost y ddarpariaeth i ddisgyblion sydd ag anghenion arbennig cymhleth sy'n cael eu lleoli mewn ysgol arbennig breswyl annibynnol yn amrywio o £40,000 i £500,000 y disgybl. Mae hyn yn golygu bod awdurdodau lleol yn defnyddio adnoddau sylweddol, y tu hwnt i'r swm y maent yn ei wario ar eu hysgolion a gynhelir, o fodloni anghenion y nifer fechan o ddisgyblion sydd ag anghenion cymhleth. Fodd bynnag, er gwaethaf gwario tua £16 miliwn ar y math hwn o ddarpariaeth ar draws Cymru'r llynedd, ychydig iawn o awdurdodau lleol sydd wedi cynllunio digon o wasanaethau lleol hyblyg, yn strategol, gyda phartneriaid, ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion cymhleth.

**Arfer dda wrth fonitro lleoliadau disgyblion**

**Astudiaeth achos 1**

Yn ddiweddar, mae un awdurdod wedi ymrwymo i drefniadau costio-bloc a chytundebau gostwng cost. Yr awdurdod hwn yw un o'r ychydig iawn sydd â phroses gontractio ar gyfer lleoliadau ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig i blant y gofelir amdanynt, sy'n glir. Mae gweithwyr cymdeithasol yn rheoli'r broses hon drwy'r adolygiadau statudol, ac mae gwasanaeth seicoleg addysg yr awdurdod yn chwarae rhan lawn. Mae swyddogion addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd yn cydweithio'n llawer agosach i graffu ar ba mor dda y mae lleoliadau y tu allan i'r sir yn gweithio i blant unigol.

Pan fo gan yr awdurdod hwn bryderon ynghylch y cynnydd y mae'r plentyn yn ei wneud, mae swyddogion addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn ymweld â'r lleoliad gyda'i gilydd er mwyn herio'r ysgol. Ar y cyd, maent wedi penderfynu tynnu rhai plant o leoliadau anfoddhaol ac wedi datblygu trefniadau hyblyg eraill.

**Astudiaeth achos 2**

Mae'r pennaeth gwasanaethau cymdeithasol mewn un awdurdod lleol wedi sefydlu bwrdd rhaglen amlasiantaethol yn ddiweddar i fynd i'r afael â gorwariant y gwasanaethau cymdeithasol ar leoli plant y gofelir amdanynt mewn ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig. Mae uwch swyddogion addysg yn aelodau o'r bwrdd hwn, ynghyd â'u cydweithwyr o'r gwasanaethau cymdeithasol, ac mae'r holl bartneriaid yn cydnabod mai dim ond trwy gefnogaeth pob asiantaeth y gellir rheoli cost uchel y ddarpariaeth sydd ei hangen ar y bobl ifanc hyn.

Mae swyddog lleoli'r awdurdod, o'r gwasanaethau cymdeithasol, wedi datblygu templedi defnyddiol i'w defnyddio wrth fonitro ac arfarnu ansawdd y lleoliadau, gan weithio gyda phartneriaid o'r adran addysg.

Mae'r defnydd effeithiol ar y prosesau hyn yn helpu'r awdurdod lleol i gynnig dadansoddiadau ystadegol i aelodau yn flynyddol.

## Gwneud trefniadau hyblyg i fodloni anghenion disgyblion

63 At ei gilydd, nid yw digon o awdurdodau lleol yn gwneud defnydd da o becynnau cefnogi unigol i alluogi plant i aros gartref yn hytrach na mynd i leoliad ysgol arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig. Fodd bynnag, mae enghreifftiau da lle mae partneriaeth effeithiol â gwasanaethau iechyd wedi galluogi i gymorth iechyd ychwanegol gael ei roi ar waith yn ôl y galw ar gyfer disgyblion sydd â phroblemau iechyd meddwl. Yn ogystal, mae enghreifftiau o wasanaethau iechyd yn gwneud defnydd da o asiantaethau nyrsio preifat i gyflogi nyrsys plant cymwys sydd wedi cael hyfforddiant seiciatryddol ychwanegol.

**Arfer dda wrth sicrhau bod disgyblion yn aros yn yr ardal leol**

Mae un awdurdod wedi ariannu dau weithiwr gofal, ynghlwm wrth ysgol arbennig, i roi lefelau uwch o gefnogaeth i blant sydd â pharlys yr ymennydd ac anghenion ychwanegol. Mae hyn yn cynnig lefel o gymorth na all athrawon ei darparu eu hunain ac mae'n galluogi i'r plant aros yn y sir.

Mae'r awdurdod hwn hefyd yn defnyddio cynllun 'foster-plus' sy'n talu mwy i ofalwyr maeth sy'n gallu gweithio gyda phlant sydd ag ymddygiad arbennig o heriol. Mae'r cynllun hwn wedi'i gynllunio i gefnogi plant a fyddai, fel arall, yn cael eu haddysgu mewn ysgolion arbennig annibynnol. Mae'r rhieni maeth hyn wedi'u cefnogi'n dda gan hostel seibiant a ddarperir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r adra addysg yn rhoi hyfforddiant penodol i weithwyr gofal ar gyfer plant sydd ag awtistiaeth. O ganlyniad, ni fu lleoliad y tu allan i'r sir, oherwydd ymddygiad heriol, am y 18 mis diwethaf.

## Gweithio ar y cyd

64 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi defnyddio pwerau Deddf Addysg 2002 i gefnogi awdurdod lleol i gydweithio i gynllunio a datblygu darpariaeth addysgol yn strategol ar gyfer ‘anghenion addysgol arbennig llai cyffredin’, fel ASA ac ACEY.

65 O bosibl, mae gweithio ar y cyd yn cynnig ffordd o ddarparu darpariaeth ranbarthol a gostwng costau am ddarpariaeth arbennig annibynnol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion cymhleth. Fodd bynnag, lle mae partneriaethau rhanbarthol yn bwriadu datblygu cyd-ddarpariaeth mae angen am sicrhau:

- bod cynllunio darpariaeth addysg wedi’i seilio ar anghenion sefydledig disgyblion;
- bod protocolau cadarn ar y cyd yn cynnwys ymrwymiad gan awdurdodau i ddefnyddio’r ddarpariaeth ranbarthol; a
- bod y ddarpariaeth a gynllunnir yn rhoi gwerth am arian.

66 Canfu tystiolaeth o arolygu awdurdodau lleol yn 2006-2007 fod awdurdodau lleol a’u partneriaid yn dechrau gwneud trefniadau cysylltiedig ar gyfer plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, canfuom hefyd nad oes gan uwch arweinwyr ddigon o ymrwymiad bob amser i gyd-gynllunio er mwyn gwneud y defnydd gorau o’r holl adnoddau sydd ar gael mewn ardal. Erys llawer i’w wneud i wella’r cynllunio strategol sydd ei angen i wireddu gwasanaethau ar y cyd, boed hyn rhwng asiantaethau un awdurdod neu ar draws ranbarthau Cymru.

67 Canfu Estyn fod rhwystrau rhag gweithio ar y cyd yn ei arfarniad o effeithiolrwydd gwaith ar y cyd wrth helpu i reoli ymddygiad disgyblion yng Nghymru ‘Ymddygiad yng Nghymru’ (2005). Mae’r rhwystrau’n cynnwys:

- cyfathrebu a rhannu gwael o ran gwybodaeth;
- cynllunio tanddatblygedig, gyda blaenoriaethau amhriodol neu aneglur;
- trefniadau arfarnu nad ydynt yn gadarn;
- lefelau cyllido annigonol;
- diffyg eglurder ynghylch pa asiantaeth sy’n talu am beth, a phryd; a
- diffyg ymddiried rhwng asiantaethau.

68 Cofnododd Swyddfa Archwilio Cymru yn ei adroddiad, ‘Lleoliadau y tu allan i’r awdurdod ar gyfer anghenion addysgol arbennig’, (2007):

> “gall gwelliannau i gaffael a chydweithio rhanbarthol gwell helpu i ostwng y gwariant ar ysgolion arbennig annibynnol”.

69 Mae'r adroddiad hwn yn ei gwneud hi'n glir y gallai awdurdodau lleol, mewn ambell achos, gynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion cymhleth:

> "...mae gan lefelau uwch o fuddsoddi cychwynnol y potensial i leihau nifer y disgyblion sy'n cael eu lleoli mewn darpariaeth ddrud, y tu allan i'r sir, a thrwy wella gallu a hyder ysgolion wrth ddarparu ar gyfer anghenion addysgol arbennig".

70 Mae adroddiad y Comisiwn Archwilio, 'Lleoliadau y tu allan i'r awdurdod ar gyfer anghenion addysgol arbennig' (2007) yn nodi arfer dda mewn cydweithio rhanbarthol yn Lloegr. Daeth eu hymchwil i'r casgliad:

> "Mae cydweithio trwy bartneriaethau rhanbarthol yn datblygu ac mae wedi dechrau cael effaith ar reoli costau mewn rhai rhanbarthau, ond mae comisiynu darpariaeth ar y cyd yn lleol ac yn rhanbarthol wedi'i danddatblygu".

71 Dyma hefyd yw'r sefyllfa yng Nghymru, fel y cadarnhawyd gan Brif Arolygydd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn ei adroddiad blynyddol 2006-2007. Mae'r adroddiad yn cofnodi'r angen am gynllunio gwasanaethau yn well:

> "Her allweddol sy'n wynebu llywodraeth leol yw cryfhau comisiynu a chontractio gwasanaethau er mwyn sicrhau bod patrwm y ddarpariaeth sydd ei hangen yn bodloni anghenion ei dinasyddion presennol a'i dinasyddion yn y dyfodol".

## Gofynion, arweiniad ac arolygu statudol

### Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (2002)

72 Mae Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (2002) yn rhoi arweiniad ar y strwythurau a'r ddeddfwriaeth i awdurdodau lleol, ysgolion ac eraill ar gyflawni eu dyletswyddau statudol i nodi, asesu a gwneud darpariaeth ar gyfer AAA disgyblion.

73 Mae'r Cod yn rhoi arweiniad clir yn Adran 8:2 i awdurdodau addysg lleol ddarparu datganiad anghenion addysgol arbennig:

> "…pan fydd o'r farn na all y ddarpariaeth addysgol arbennig sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion y plentyn gael eu darparu'n rhesymol o fewn yr adnoddau sydd ar gael fel arfer i ysgolion prif ffrwd a sefydliadau addysg gynnar yn yr ardal".

74 Mae gofyniad statudol felly y dylai disgyblion sy'n mynychu ysgol arbennig, p'un a bod hon yn ysgol a gynhelir neu'n ysgol annibynnol, fod â datganiad anghenion addysgol arbennig.

75 Fodd bynnag mae nifer o amgylchiadau eithriadol lle mae'r Cod, o dan Adran 7:31, yn cynnig hyblygrwydd sy'n caniatáu i blentyn sydd heb ddatganiad fynychu ysgol arbennig:

- lle bo'r plentyn yn cael ei asesu i benderfynu a oes angen datganiad;
- lle bu newid mewn amgylchiadau; a
- lle bo'r plentyn yn yr ysbyty ac yn mynychu ysgol arbennig yn yr ysbyty".

76 Mae'n rhaid i awdurdod lleol ddatgan yn glir ddiben a hyd cyfnod y lleoliadau a wnaed heb ddatganiadau.

77 Mae'r Cod hefyd yn datgan yn Adran 8:25:

> "Pan wneir lleoliad brys, dylai'r awdurdod addysg lleol (AALl) fyn ati i gynnal asesiad statudol neu ailasesiad ar unwaith… Os yw'r plentyn wedi'i leoli mewn ysgol arbennig, ac y bydd yn aros yno, dylid gwneud datganiad bob amser".

78 Mae hyn yn golygu, lle bu newid yn yr amgylchiadau sy'n ddigonol i'r awdurdod lleol wneud darpariaeth mewn ysgol arbennig breswyl annibynnol, y dylai'r awdurdod sicrhau bod asesiad statudol yn cael ei gynnal. Pan fo disgybl heb ddatganiad wedi cael ei leoli mewn ysgol arbennig annibynnol am asesiad ond penderfynir nad oes angen datganiad, mae'r Cod Ymarfer yn datgan mai dim ond am uchafswm o 10 niwrnod y gall y disgybl aros yn yr ysgol honno.

79 Mae ymweliadau arolygu blynyddol Estyn ag ysgolion arbennig annibynnol yn canfod nad yw awdurdodau lleol bob amser yn dilyn y gweithdrefnau statudol hyn. I lawer o ddisgyblion, mae hyn yn golygu nad oes ganddynt asesiad o'u hanghenion addysgol

arbennig, neu fod asesiadau yn anghyflawn. O ganlyniad, nid yw eu hanghenion yn cael eu bodloni ac felly nid ydynt yn debygol o gyflawni eu potensial dysgu eu hunain.

**Arolygu a rheoleiddio**

80 Mae Estyn yn arolygu ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig o dan adran 168 Deddf Addysg 2002. Yn ogystal, mae Estyn yn ymweld â phob ysgol i farnu a ydynt yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn arolygu'r ddarpariaeth lles cymdeithasol yn yr ysgolion hyn, neu mewn cartrefi plant cysylltiedig. Mae gan y ddwy arolygiaeth brotocol ar gydweithio a rhannu gwybodaeth.

81 Mae ar ysgolion sy'n dymuno darparu ar gyfer disgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig angen cymeradwyaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer yr amrywiol gategorïau anghenion dysgu ychwanegol.

82 Os yw awdurdod lleol yn dymuno lleoli disgybl sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig mewn ysgol arbennig annibynnol, rhaid iddynt sicrhau bod yr ysgol yn meddu ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i fodloni anghenion addysgol arbennig penodol y disgyblion. Lle nad oes gan yr ysgol hyn, rhaid i'r awdurdod lleol geisio caniatâd Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r lleoliad arfaethedig.

83 Er gwaethaf y gofynion clir hyn, mae awdurdodau lleol yn parhau i leoli disgyblion mewn ysgolion na allant fodloni eu hystod lawn o anghenion addysgol arbennig. Nid yw awdurdodau lleol bob amser yn dilyn y gweithdrefnau cywir cyn eu bod yn lleoli disgyblion oni bai bod ysgolion yn eu hatgoffa i wneud hynny. Mae Estyn yn dod ar draws disgyblion sydd wedi'u lleoli heb ganiatâd priodol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rheolaidd. Mae canlyniad hyn yn golygu nad yw anghenion addysgol arbennig disgyblion yn cael eu bodloni'n briodol.

84 Un o'r rhesymau dros y diystyru parhaus hwn yw nifer uchel y disgyblion a leolir gan awdurdodau lleol yn Lloegr mewn ysgolion yng Nghymru. Nid yw rheoliadau'n cael eu cymhwyso'n gyson ledled Cymru a Lloegr ac mae hyn weithiau'n arwain at ddryswch gan nad yw awdurdodau lleol yn Lloegr yn gyfarwydd â rheoliadau yng Nghymru.

85 Mae llawer o'r ysgolion arbennig annibynnol wedi cofrestru eu cyfleusterau preswyl gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru fel cartrefi plant, oherwydd y cyfnodau hir y mae plant a phobl ifanc yn aros yno. Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru sy'n arolygu'r cartrefi plant hyn. Estyn sy'n arolygu'r ddarpariaeth addysg, hyd yn oed pan ddarperir hyn ar y safle yn y cartref plant.

86 Mae protocol ar y cyd rhwng Estyn ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn rhoi gwybod y diweddaraf i'r ddwy arolygiaeth ynghylch datblygiadau yn yr ysgolion. Mae'r bartneriaeth hefyd wedi arwain at beth arolygu cydamserol o'r lles cymdeithasol a'r addysg a ddarperir gan ysgolion arbennig annibynnol. Er hynny, mae'r gofynion arolygu ar wahân a'r setiau gwahanol o reoliadau sy'n rheoli'r ddarpariaeth wedi rhwystro gweithio mwy cydlynol.

87 Yn ystod ymweliadau ag ysgolion arbennig annibynnol, mae arolygwyr yn craffu ar samplau o ffeiliau achos. Yn aml iawn, bydd gwybodaeth anghyflawn am ddisgyblion, yn enwedig am eu hanghenion dysgu. Mae gwendidau penodol wrth drosglwyddo gwybodaeth bwysig am ddysgu disgyblion o'r awdurdod lleol ym mron pob un o'r ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig. Yn rhy aml o lawer, mae'r ffeiliau hyn yn cynnwys tystiolaeth glir o fethiant awdurdodau lleol â bodloni anghenion disgyblion unigol. Mae llawer o'r ffeiliau'n adrodd hanes tebyg: hanes hir o bryderon ynghylch gofal cymdeithasol ac o fethiant addysgol. Mae llawer o awdurdodau lleol wedi methu ag ymyrryd yn ddigon cynnar a rhoi cefnogaeth briodol i lawer o'r plant a phobl ifanc hyn.

**Beth yw effaith polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru?**

88 Mae'r mesurau statudol, newidiadau mewn polisi ac arweiniad strategol niferus gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi fframwaith cydlynol i awdurdodau lleol strwythuro'u gwasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Deddf Plant 2004;
- Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau;
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc (PPPhI);
- Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau;
- Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell;
- Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru;
- Creu'r Cysylltiadau: Ar draws Ffiniau: Gweddnewid Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru; ac
- Ar Draws Ffiniau - Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir yn Lleol.

89 Mae'r mesurau hyn yn hyrwyddo pwysigrwydd cydweithio a gweithio mewn partneriaeth rhwng y gwasanaeth ar gyfer plant, a'r manteision sydd i'w cael o ran cynyddu eu gallu i wneud gwelliannau. Cyfathrebu da yw'r allwedd i weithio mewn partneriaeth yn effeithiol ac mae llawer o awdurdodau yn datblygu eu protocolau cyfathrebu ac yn rhoi blaenoriaeth i rannu gwybodaeth fel ffordd o wella'u gweithio mewn partneriaeth.

90 Mae Deddf Plant 2004 yn galluogi partneriaid i gyfuno'u cyllidebau er mwyn cefnogi trefniadau gweithio ar y cyd. Yr agwedd hon sydd fwyaf hanfodol i sicrhau bod y bartneriaeth yn gweithio. Fodd bynnag, nid yw gweithredu hyn wedi datblygu'n dda ac nid yw cyfuno cyllidebau ac adnoddau anariannol eraill eto wedi gwneud gwahaniaeth i wasanaethau ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag anghenion cymhleth.

91 Yn Lloegr, daeth y Ddeddf â gofynion statudol fod awdurdodau addysg lleol ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol plant yn gweithio mewn partneriaeth i greu ymddiriedolaethau plant. Anogwyd yr ymddiriedolaethau plant newydd i integreiddio

asesu angen, comisiynu, a chyflwyno gwasanaethau. Ni chafod y gofyniad hwn ei ddeddfu yng Nghymru. Fodd bynnag, defnyddiodd nifer fach o awdurdodau lleol y cyfle deddfwriaethol hwn i ymestyn gweithio mewn partneriaeth trwy aildrefnu strwythurau addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn wasanaethau plant integredig.

92 Mae'n rhy gynnar dirnad effaith lawn y strwythurau integredig ar blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o arolygu awdurdodau lleol yng Nghymru, y bu gwelliannau yn y prosesau cynllunio ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth, lle bo'r integreiddio hyn wedi digwydd. Gweledigaeth glir, wedi'i rhannu, a chysylltiadau a chyfathrebu o ansawdd da rhwng asiantaethau fu'r ffactorau allweddol wrth gefn y gwelliannau hyn.

93 Nid yw cynllunio a chydlynu gwell wedi cael eu cyfyngu i awdurdodau sydd wedi newid eu strwythur corfforaethol. At ei gilydd, mae cynllunio a chydlynu gwasanaethau ar y cyd i ddisgyblion sydd ag anableddau wedi symud ymlaen yn gadarnhaol. Mae llawer o enghreifftiau o wasanaethau o'r fath yn rhoi asesu, cyngor a chymorth da i ddisgyblion sydd ag anableddau ac i'w rhieni neu eu gwarcheidwaid.

94 At ei gilydd, mae awdurdodau lleol a'u partneriaid yn rhy araf wrth wella'u trefniadau ac wrth weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol i roi trefniadau a chomisiynu ar y cyd ar waith. Nid yw cynllunio a chomisiynu gwasanaethau yn effeithiol ar gyfer disgyblion sydd ag ACEY, ac ar gyfer y rhai sydd ag ASA, yn datblygu'n ddigon da ar draws Cymru.

95 Er gwaethaf y cynnydd cyfyng yn gyffredinol, mae enghreifftiau o becynnau cymorth arloesol, hyblyg, sy'n helpu i gadw plant ifanc yn eu hardaloedd cartref. Yn ogystal, mae nifer fach o enghreifftiau o bobl ifanc yn dychwelyd i'w hardal gartref o ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig trwy gynllunio a darpariaeth ar y cyd da gan awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae'r rhain yn cynrychioli nifer gymharol fach o blant.

96 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau'n dechrau datblygu'r ddealltwriaeth ffurfiol a'r prosesau y mae ar drefniadau ar gyfer comisiynu ar y cyd eu hangen. Mae ymrwymiad helaeth i wella cydweithio, ond araf yw'r cynnydd.

97 Fodd bynnag, er gwaethaf gweledigaeth glir Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwasanaethau gwell, trwy weithio'n well mewn partneriaeth, mae methiant llawer o awdurdodau lleol a'u partneriaid iechyd i gynnig pecynnau cymorth integredig, gan gynnwys cymorth teuluol, therapïau a darpariaeth iechyd meddwl, wedi arwain at leoli gormod o ddisgyblion sydd ag anghenion cymhleth y tu allan i'w hardaloedd eu hunain i gael addysg a gofal.

## Atodiad 1: Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru

**Deddf Plant 2004**

Darparodd Rhan 3 y Ddeddf Plant sail statudol newydd ar gyfer gweithio a chynllunio mewn partneriaeth i symud y weledigaeth ynghylch gwasanaethau plant yn ei blaen. Mae Adran 25 y Ddeddf yn gofyn am gydweithio lleol rhwng awdurdodau lleol a'u partneriaid gyda nod glir o helpu pob plentyn i gyflawni ei botensial/ei photensial llawn. Mae'n galluogi partneriaid i gyfuno'u cyllidebau i gefnogi'r trefniadau hyn.

Mae Adran 27 y Ddeddf yn gofyn bod awdurdodau lleol yn penodi cyfarwyddwr arwain ac aelod arwain ar gyfer gwasanaeth plant a phobl ifanc gyda chyfrifoldebau am sicrhau cydweithrediad o ran cynllunio mewn partneriaeth ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae gofynion tebyg ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol (BILl) ac Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (YGIGau) i benodi swyddogion arwain i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol.

**Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau**

Roedd y polisi a'r arweiniad hwn, a gyflwynwyd yn 2004, wedi cyflwyno saith nod graidd yn sail ar gyfer gwneud penderfyniadau a blaenoriaethu amcanion, yn genedlaethol. Mae'r nodau hyn hefyd yn llunio'r sail ar gyfer penderfyniadau ar strategaeth a darpariaeth gwasanaethau yn lleol.

Mae'r nodau'n edrych i sicrhau bod plant a phobl ifanc oll:

- yn cael dechrau da mewn bywyd;
- yn cael ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysg;
- yn mwynhau'r iechyd gorau posibl, yn rhydd o gamdriniaeth, erledigaeth, ac ecsploetiaeth;
- yn gallu cael mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol;
- yn cael eu trin gyda pharch, yn cael pobl i wrando arnynt, gan gydnabod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol;
- yn byw mewn cartref a chymuned ddiogel sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol; ac
- nad ydynt o dan anfantais oherwydd tlodi.

Mae'r gwaith partneriaeth sydd ei hangen gan awdurdodau lleol i gynllunio ac i weithio tuag at roi'r nodau craidd hyn ar waith yn tanategu'r polisi a ddaw ar waith yn ddiweddarach eleni, i lunio cynlluniau plant a phobl ifanc (CPPhI).

**Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc (PPPhI)**

O dan adran 26 Deddf Plant 2004, mae'n rhaid i awdurdodau lleol baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n cyflwyno strategaeth yr awdurdod ar gyfer cyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc perthnasol. Mae'n rhaid i'r cynllun:

- ddarparu gweledigaeth strategol a datgan y blaenoriaethau cytunedig a fydd yn cyfeirio gwaith pob partner;

- disgrifio sut bydd gofynion strategaethau, polisïau a blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn cael eu trin yn lleol a'r prif elfennau a fydd yn cyflwyno gwelliant i wasanaethau o dan bob un o'r saith nod craidd;

- gosod y targedau ar y cyd cytunedig i alluogi i dargedau cynnydd gael eu mesur dros gyfnod yr amserlen gynllunio;

- nodi'r cyfraniad a wneir gan bartneriaid unigol at fodloni amcanion ar y cyd, gan sicrhau eu bod yn gyson ac yn gyd-gefnogol; a

- rhoi sylfaen ar gyfer cyd-gomisiynu gwasanaethau a rhannu cyllid sydd ar gael, gan gynnwys cyllidebau craidd partneriaid statudol a chyfraniadau adnoddau neu gyfraniadau ariannol gan y sector gwirfoddol.

Mae gofyn i awdurdodau lleol gydweithio â phartneriaid yn y gymuned i roi'r newidiadau angenrheidiol mewn diwylliant ac arfer sefydliadol ar waith i sicrhau nodi, cynllunio strategol ac integreiddio gwasanaethau i blant a phobl ifanc.

**Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau**

Mae'r arweiniad hwn, a gyflwynwyd yn 2005, yn cryfhau cydweithrediad ar draws gwasanaethau, gan roi'r ffocws ar wella canlyniadau i blant a phobl ifanc yn hytrach na chydymffurfiaeth â phroses. Ni fyddai'n ymarferol nac yn briodol i un asiantaeth gyflwyno'r canlyniadau y mae'r saith nod craidd yn gofyn amdanynt.

Mae'r arweiniad yn hyrwyddo datblygiad cyd-gomisiynu gwasanaethau fel ffordd o ddwyn ynghyd cynllunio a darparu gwasanaethau. Mae cydnabyddiaeth y byddai'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc (PPPhI) yn ddefnyddiol o ran datblygu'r prosesau hyn.

**Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell**

Er Mehefin 2007, mae mesurau newydd wedi cryfhau'r trefniadau ar gyfer: lleoli; iechyd; addysg; a lles plant a phobl ifanc y gofelir amdanynt. Mae'r arweiniad yn gofyn bod awdurdodau lleol a'u partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd wrth wneud trefniadau ar gyfer lleoli plant y gofelir amdanynt a darparu eu hiechyd a'u haddysg.

Mae mesurau cydweithio o ran plant a phobl ifanc y gofelir amdanynt yn cael eu cefnogi ymhellach gan ddatblygiad Byrddau Gwasanaethau Lleol. Mae'n ddyddiau cynnar ar y Byrddau hyn o hyd, ond yn eu blwyddyn gyntaf, maent wedi blaenoriaethu ystyriaethau gofal cymdeithasol.

## Atodiad 2: Astudiaeth achos o lwybr disgybl nodweddiadol i ysgol arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig

Datblygwyd yr enghraifft ddamcaniaethol hon yn dangos llwybr nodweddiadol i ysgol arbennig annibynnol ar y cyd rhwng arolygwyr Estyn ac AGGCC. Mae'r disgybl yn un ffug, ond wedi'i seilio ar ffaith.

### Hanes David

Ganed David i deulu rhiant unigol o bedwar o fechgyn. Mae gan bob un o'r pedwar bachgen dad gwahanol, ac nid yw'r un ohonynt yn rhoi cefnogaeth. Mae'r fam yn defnyddio cyffuriau.

### Addysg Cyn Ysgol a'r Blynyddoedd Cynnar

Mae gweithwyr iechyd proffesiynol wedi nodi bod gan David oediad datblygiad cyfathrebu a phatrwm cysgu anodd.

Mae David yn mynd i'r ganolfan blant leol drwy'r fenter Dechrau'n Deg. Mae pryderon yn y ganolfan ynghylch ymddygiad ymosodol, cyfathrebu, a chynnydd cyffredinol David. Caiff enw David ei roi ar y gofrestr AAA yn 'Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar' yn unol â'r Cod Ymarfer AAA. Paratoir cynllun addysg unigol (CAU) iddo.

Mae'r Paediatregydd Cymunedol yn trafod pryderon ynghylch David yn y 'panel dosbarthu' amlasiantaethol cyn ysgol. Mae'r seicolegydd addysg yn agor ffeil addysg.

Caiff David a'i frodyr eu cyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol am asesiad plant 'mewn angen' neu blant sydd angen eu hamddiffyn o bosibl. Cwblheir Asesiad Cychwynnol a Chraidd o dan y Fframwaith Asesu gan weithiwr cymdeithasol sy'n cydlynu cynllun amlasiantaethol i ddechrau mynd i'r afael â'r problemau penodol sy'n gysylltiedig â David ac aelodau eraill y teulu. Dyma gynllun cydlynedig gyda chamau wedi'u cymryd trwy fewnbwn iechyd ac addysg.

### Ysgol gynradd

Mae adolygiadau rheolaidd o gynnydd y CAU, ond erys pryderon. Mae'r ysgol yn cynnig cymorth rhan-amser un-i-un o'r gyllideb AAA ddirprwyedig. Paratoir cynllun ymddygiad unigol (CYU).

Gwneir ceisiadau am gefnogaeth ychwanegol i Banel Cymedroli/AAA yr awdurdod lleol. Caiff David ei ddosbarthu yn 'Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy' ac mae'r awdurdod yn darparu cymorth Seicolegydd Addysg ac Athro Cymorth Ymddygiad.

Mae David yn cael ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant ar ôl cynhadledd achos amddiffyn plant y Bwrdd Diogelu Plant Lleol (BDPLI) a sbardunwyd gan adroddiad

gan athro o gleisio. Mae hyn yn dilyn pryderon hirdymor am gyfathrebu gwael, ymddygiad anodd, diet gwael, problemau glendid, blinder gormodol a phresenoldeb gwael. Mae amrywiaeth o staff addysg (ysgol, gwasanaeth seicoleg, swyddog lles addysg, swyddog cymorth ymddygiad ac eraill) yn mynychu'r gynhadledd hon ac mae'r wybodaeth a ddarperir ganddynt (ochr yn ochr â gwybodaeth gan weithwyr proffesiynol eraill) yn llywio'r penderfyniad nad yw David wedi dioddef niwed arwyddocaol.

Mae cais gan ei ysgol i Banel Cymedroli/AAA yr awdurdod am gymorth ychwanegol yn dilyn pryderon ynghylch lefelau iaith dderbyngar a mynegiannol David, ynghyd â'i ymddygiad anodd iawn. Mae'r ysgol yn hawlio na all gynnal y cymorth ychwanegol o'i chyllideb ei hun. Mae swyddogion yr awdurdod lleol yn gofyn am dystiolaeth ychwanegol gan yr ysgol.

Wrth aros am ymateb gan yr awdurdod addysg lleol, mae David yn cael ei wahardd dros dro o'r ysgol.

Awgryma tystiolaeth a ddarparwyd gan yr ysgol i'r Panel Cymedroli nad yw cyfathrebu David y tu ôl i gyfathrebu ei gymheiriaid yn ddigonol i fodloni'r meini prawf cyllid ychwanegol. Fodd bynnag, mae'r Athro Cymorth Ymddygiad wedi cael ei adfer i roi Hyfforddiant mewn Swydd i'r ysgol gyfan ar Reoli Ymddygiad Cadarnhaol.

Mae cyfradd bresenoldeb David islaw 60%.

Caiff David ei wahardd dros dro o'r ysgol. Mae'r Panel Cymedroli/AAA yn dechrau gweithdrefnau asesu statudol ar ôl cael adroddiad gan yr Athro Cymorth Ymddygiad. Mae'r adroddiad yn datgan ei fod yn cael anawsterau'n ymwneud â'i gymheiriaid, ac nad yw'n blentyn poblogaidd. Mae'r adroddiad hefyd yn awgrymu bod ganddo anawsterau dysgu penodol yn ogystal â'i ymddygiad heriol.

Cyn asesiad y seicolegydd addysg, mae mwy o bryderon amddiffyn plant yn arwain at gyfarfod amddiffyn plant, amlasiantaethol BDPLl arall, ac mae cynllun sy'n seiliedig ar y parthau Fframwaith Asesu'n cael ei ddyfeisio. Bydd ystod o ymyriadau penodol yn cael eu darparu gan asiantaethau addysg ac asiantaethau eraill. Mae agweddau eraill ar y cynllun yn canolbwyntio ar fodloni anghenion gofal cymdeithasol a gostwng risgiau amddiffyn plant eraill. Mae staff addysg yn cymryd rhan mewn Grwpiau Craidd misol a chynadleddau adolygu bob tri mis a chwe mis i fonitro ac adolygu'r cynllun.

Gwneir ailgyfeiriad at BDPLl yr awdurdod lleol yn dilyn ymyrraeth gan yr heddlu. Mae'r awdurdod lleol yn rhoi David 'mewn gofal'. Mae hyn yn golygu ei fod wedi dod yn 'blentyn y gofelir amdano' (PGA) er ei ddiogelwch ei hun. Mae'n cael ei letya gyda chytundeb ei fam, yn destun amddiffyniad yr heddlu. Mae'r awdurdod lleol yn penderfynu dechrau achos i geisio gorchymyn gofal.

Mae'r lleoliad gofal 45 milltir o'r ysgol, mewn awdurdod cyfagos. Mae David yn cael ei anfon i ysgol arall yn agosach at ei gartref maeth. Cyn gwneud y lleoliad hwn, mae'r awdurdod lleol yn ystyried y materion, fel y'u gosodir yn Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007. Mae'r rhain yn cynnwys ystyriaethau addysgol penodol (Atodlen 3) gan gynnwys sut bydd y lleoliad arfaethedig yn bodloni anghenion addysgol y

plentyn. Gan fod y lleoliad maeth y tu allan i'r sir, mae'r achos hwn yn cael ei drafod mewn panel gofal plant (dylai hwn gael ei gynnal cyn gwneud y lleoliad ond yn yr argyfwng hwn, fe'i gwnaed cyn pen 25 diwrnod o wneud y lleoli). Mae'r panel yn cynnwys uwch swyddogion o'r awdurdod lleol ac o asiantaethau eraill. Eu rôl, ymysg eraill, yw sicrhau y bydd angehnion addysgol y plentyn yn cael eu bodloni yn y lleoliad arfaethedig.

Tra gofelir am David, caiff cynllun gofal ei ddatblygu sy'n cynnwys elfen addysgol yn y Cynllun Addysg Personol (CAP). Cwblheir hwn cyn pen 20 diwrnod wedi i David ddod o dan ofal.

Mae David yn cael ei wahardd dros dro o'r ysgol. Mae gweithiwr cymorth, a ddarperir gan yr awdurdod lleol ar sail un-i-un (dros dro), yn aros gydag ef nes bod y prosesau asesu sy'n arwain at ddatganiad anghenion addysgol arbennig yn cael eu cwblhau.

Mae'r awdurdod lleol yn paratoi datganiad AAA. Mae hyn yn datgan bod angen i David drosglwyddo i ysgol arbennig ar ddiwedd Blwyddyn 7 oherwydd ei broblemau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad a'i anghenion addysgol arbennig. Bydd y cwricwlwm yn cael ei addasu i fodloni ei anghenion dysgu. Bydd Therapydd Iaith a Lleferydd yn rhoi cefnogaeth i ddatblygu ei gyfathrebu gwael. Nid yw David eisiau mynd i ysgol arbennig; mae ef eisiau mynd i'r ysgol uwchradd leol gyda'i ffrindiau dosbarth.

**Ysgol arbennig**

Mae David yn mynd yn ôl at ei deulu ei hun. Mae ei bresenoldeb yn yr ysgol yn gwaethygu. Mae ymyrraeth reolaidd gan yr heddlu oherwydd dwyn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae achos David yn dychwelyd i gynhadledd amddiffyn plant BDPLl yn dilyn pryderon ynghylch esgeulustra. Fe'i rhoddir yn ôl yng ngofal yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae ei ymddygiad yn troi'n beryglus ac mae lleoliadau gofal yn cadw torri i lawr.

Mae David yn cael ei wahardd yn barhaol o'r ysgol. Mae'n cael ei leoli mewn Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD).

Mae David yn dianc o'r lleoliad gofal yn rheolaidd.

Mae'r UCD yn cyfeirio'i achos at y BDPLl yn dilyn pryderon am ei ddiogelwch. Mae'r cyfarfod yn cyfeirio'i achos at y Panel Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir sy'n cytuno y byddai ysgol arbennig breswyl yn cynnig amgylchedd mwy sefydlog. Cytunir ar gyllido lleoliad ar y cyd, ond bydd angen ystyried costau a threfniadau ar ôl sicrhau lleoliad. Mae anhawster dod o hyd i ysgol addas sydd â lle ar gael. Yn y cyfamser, mae David yn cael tair awr yr wythnos o hyfforddiant gartref ac mae'n mynychu gweithdy mecaneg gyda chefnogaeth gweithiwr ieuenctid.

**Ysgol arbennig annibynnol**

Mae gweithiwr cymdeithasol ac athro cymorth ymddygiad yn ymweld ag ysgol 85 milltir o gartref David. Mae'n ysgol arbennig annibynnol gyda chartref gofal ar y safle

sy'n cynnig darpariaeth breswyl 52 wythnos i ddisgyblion sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad  Maent yn cytuno y gall yr ysgol ddarparu gofal da a rheoli ymddygiad David.  Mae David yn symud i'r ddarpariaeth breswyl hon.

Gwybodaeth gyfyngedig iawn am gyflawniadau addysgol David sy'n cyrraedd yr ysgol.  Darperir ei ddatganiad anghenion addysgol arbennig, ond nid yr atodiadau ategol.  Mae hyn yn golygu nad yw ei anghenion addysgol arbennig sylfaenol yn cael eu cydnabod yn yr ysgol.  Nod yr ysgol yw helpu David i reoli ei ddicter ac i reoli ei ymddygiad ei hun yn well.  Maent yn darparu therapi i'w helpu.  Mae gan ochr cartref gofal y sefydliad wybodaeth fanylach am gefndir ac anghenion David ac mae hyn yn llywio'r cynllun lleoli ar gyfer y ddarpariaeth ofal a'r cynllun rheoli cyffredinol ar ei gyfer.  Cydnabyddir bod angen cael cysondeb rhwng ei amser addysgu a'r ddarpariaeth ofal ehangach.

Mae ymddygiad David yn yr ysgol yn dechrau dirywio ar ôl cyfnod cychwynnol byr. Mae'n gwrthod gweithio, ac eithrio yn y wers gelf.  Mae'n troi'n ymosodol ac yn heriol yn gorfforol tuag at staff.

Mae'r heddlu'n gysylltiedig yn rheolaidd yn dilyn adroddiadau am ddigwyddiadau a hefyd pan fydd David yn methu â dod nôl adref yn dilyn ymweliadau â'r gymuned.

Mae David yn gwrthod mynd i'r ysgol.  Mae enghreifftiau niferus o ymddygiad heriol ac ymosodol.  Gelwir cyfarfod adolygu ac mae'r cynllun rheoli a'r cynllun gofal yn cael eu hadolygu... sawl gwaith.

Caiff David ei wahardd o'r ysgol.

Mae'r broses gyfan i nodi gwahanol leoliadau i fodloni ei anghenion yn cael ei hailadrodd, fwy nag unwaith efallai.

## Atodiad 3: Rheoliadau safonau ysgolion annibynnol (Cymru) 2003

Mae rhan 10 Deddf Addysg 2002 yn rhoi gofyniad ar bob ysgol annibynnol i gofrestru gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru cyn bod ysgol yn dechrau gweithredu. Mae Rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf yn gosod ystod o safonau y mae'n rhaid i bob ysgol annibynnol eu bodloni fel amod cofrestru. Mae'r rheoliadau hyn yn cwmpasu:

- ansawdd yr addysg a ddarperir;
- datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion;
- lles, iechyd a diogelwch disgyblion;
- addasrwydd perchnogion a staff;
- yr adeiladau a'r llety;
- darparu gwybodaeth; ac
- y ffordd y caiff cwynion eu trin.

## Geirfa/cyfeiriadau


**Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2006-2007**: Estyn, 2008

**Y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth**: Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004

**Arweiniad ar Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal gan Awdurdodau Lleol**: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cylchlythyr 2/2001, 2001

**Dewis a Sefydlogrwydd – Datblygu ystod o leoliadau o safon ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc yng Nghymru**: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002

**Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau**: Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004

**Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau**: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2006

**Cylchlythyr Iechyd Cymru WHC (2007) 023**: Arweiniad Comisiynu'r GIG; ynghyd ag Arweiniad Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (Cymru), 2007

**Arolwg thematig o unedau cyfeirio disgyblion a darpariaeth debyg**: Estyn, 2004

**Llwybrau Dysgu 14-19: Canllawiau**: Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cylchlythyr 37/2004, Gorffennaf 2004

**Integreiddio Darpariaeth Gwasanaeth i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru**: Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru 2007

**Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb:** Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008

**Ymddygiad yng Nghymru: Arfer dda wrth reoli ymddygiad heriol**: Estyn 2006

**Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell**: Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007

**Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru**: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002

**Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Ofal a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru 2006-2007**: AGGCC, 2008

**Lleoliadau y tu allan i'r awdurdod ar gyfer anghenion addysgol arbennig**: Y Comisiwn Archwilio, 2007

## Awdur y cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Sw Roberts | AEM |
| Claire Yardley | AEM |
| Trevor Payne | Arolygydd Ychwanegol |
| Sue Gilbert | Arolygydd Ychwanegol |